NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Trifluridine–tipiracil gyda bevacizumab ar gyfer trin canser y colon a'r rhefr metastatig ar ôl 2 driniaeth systemig

25 Medi 2024

Mae trifluridine-tipiracil (Lonsurf) gyda bevacizumab (Avastin) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer canser y colon a'r rhefr metastatig mewn oedolion sydd wedi cael 2 driniaeth (sy'n cynnwys cemotherapi seiliedig ar fflwropyrimidin-, oxaliplatin- ac irinotecan-, ffactor twf endolthalidd gwrthfasgwlaidd neu driniaeth derbynnydd ffactor twf gwrth-epidermol).

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall tudalen we y GIG ar ganser y coluddyn fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Bowel Cancer UK, 0207 940 1760
- GUTS UK, 0207 486 0341
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040

- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9473-1